



# Adroddiad Dysgu Diwedd Rhaglen

Rhaglen Genedlaethol COVID-19 Nosocomaidd



# Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
2.	Cefndir	3
3.	Beth yw Rhaglen Genedlaethol COVID-19 Nosocomiaidd?	4
4.	Sut y mae'r hyn a ddysgwyd wedi'i nodi?	5
5.	Yr hyn a ddysgwyd o'r rhaglen	5
5.1	Profiadau pobl	5
5.1.1	Gwasanaethau cymorth profedigaeth a gofal ar ôl marwolaeth	5
5.1.2	Cefnogi defnyddwyr gwasanaethau yn ystod proses ymchwilio	6
5.1.3	Cyfyngiadau ymweld	8
5.1.4	Cyfathrebu â theuluoedd a gofalwyr	10
5.2	Digwyddiadau a phryderon sy'n ymwneud â diogelwch cleifion	11
5.2.1	Digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion y tu allan i leoliadau GIG Cymru	11
5.2.2	Nodi heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd fel digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, eu hadrodd ac ymchwilio iddynt	12
5.2.3	Cymhwyso'r penderfyniadau na cheisier dadebru cardio-anadlol	13
5.2.4	Cadw cofnodion clinigol	14
5.2.5	Staffio ac adnoddau	15
5.3	Atal a rheoli heintiau	18
5.3.1	Cyhoeddi a dosbarthu canllawiau	18
5.3.2	Rheoli brigiad o achosion	19
5.3.3	Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion	21
5.3.4	Amgylcheddau ysbyty	22
6.	Sylwadau i gloi	23
7.	Gwybodaeth ychwanegol	23
	Cael mynediad at gymorth	23
	Rhestr termau	24

# 1. Cyflwyniad

Mae Rhaglen Genedlaethol COVID-19 Nosocomiaidd am estyn ei chydymdeimlad diffuant i'r rhai a gollodd anwyliaid ar ôl dal COVID-19 mewn lleoliadau gofal iechyd. Bu'n gyfnod eithriadol o anodd i lawer o deuluoedd, gofalwyr a staff fel ei gilydd ac ni ellir tanbrizio'r effaith.

Diben yr *Adroddiad Dysgu Diwedd Rhaglen* yw crynhoi'r hyn a ddysgwyd yn genedlaethol sydd wedi deillio o ymchwiliadau COVID-19 (a ddaliwyd wrth gael gofal iechyd) nosocomiaidd a'r rhaglen waith ehangach. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y themâu dysgu cynnar a nodwyd mewn *Adroddiad Dysgu Interim* a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r rhaglen yn ymchwiliad a arweinir yn genedlaethol i COVID-19 nosocomiaidd yng Nghymru, nac yn ceisio tynnu sylw oddi wrth rôl Ymchwiliad y DU i COVID-19. Sefydlwyd Rhaglen Genedlaethol COVID-19 Nosocomiaidd i gefnogi sefydliadau GIG Cymru i ymgymryd â'u dyletswydd i ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion mewn modd cymesur - wrth adlewyrchu cymhlethdodau COVID-19 a achosodd niferoedd anarferol o uchel o ddigwyddiadau.

## 2. Cefndir

Mewn ymateb i'r pandemig, addasodd a newidiodd GIG Cymru ei ffocws gweithredol yn gyflym i leddfu effaith niweidiol COVID-19 cyn belled â phosibl, ar adeg lefelau uchel o ansicrwydd a gorbryder. Cydnabyddir yn eang y gweithiodd staff y GIG yn ddiflino drwy'r cyfnod mwyaf heriol yn hanes y GIG i gynnal safonau uchel o ofal clinigol a lleddfu risg i gleifion. Er gwaethaf yr ymdrechion gorau, gwnaeth y gofyniad i'r GIG newid ffocws gweithredol er mwyn ymateb i'r pandemig amharu'n ddifrifol ar weithgarwch gofal iechyd arferol.

Yn rhyngwladol, roedd COVID-19 yn haint newydd ac anrhagweladwy nad oedd llawer yn hysbys amdano, y tu hwnt i'r ffaith ei fod yn fygythiad difrifol i iechyd y boblogaeth fyd-eang.

Er bod mesurau atal a rheoli heintiau'n arfer arferol i'r GIG, roedd lledaeniad COVID-19 mewn lleoliadau gofal iechyd yn heriol, yn enwedig ar adegau pan oedd nifer yr achosion cymunedol yn uchel, ac roedd gan ysbytai lefelau sylweddol uchel o gymhlethdod cleifion, galw a gwelyau llawn.

Roedd maint y pandemig yn golygu bod cleifion mewn ysbytai a lleoliadau cleifion mewnol eraill, er eu bod mewn amgylchedd gofal iechyd, yn wynebu mwy o risg o ddal COVID-19 nosocomiaidd. Er bod heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd - sydd bellach yn cynnwys COVID-19 - yn risg gydnabyddedig mewn lleoliadau gofal iechyd, mae datblygu ein dealltwriaeth o sut i ymchwilio i faterion diogelwch cleifion yn bwysig er mwyn helpu i lywio'r hyn a ddysgir a gwella.



### 3. Beth yw Rhaglen Genedlaethol COVID-19 Nosocomiaidd?

Sefydlwyd Rhaglen Genedlaethol COVID-19 Nosocomiaidd ym mis Ebrill 2022 i gefnogi sefydliadau GIG Cymru i gynnal ymchwiliadau cymesur i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion o ran COVID-19 nosocomiaidd, a ddigwyddodd rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ebrill 2022. Mae'n aelodaeth gyfunol o holl sefydliadau'r GIG ledled Cymru, gan gydweithio er mwyn gweithredu dull mor gyson â phosibl, i ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion nosocomiaidd.

Y tu hwnt i'r ymrwymiad gan GIG Cymru i ymchwilio ac ateb cynifer o gwestiynau â phosibl, roedd y rhaglen hefyd yn gyfle i ystyried sut y mae GIG Cymru yn rheoli ac yn cynnal ymchwiliadau diogelwch cleifion; yn enwedig sut y mae defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofawyr yn cael eu cefnogi ac yn cymryd rhan yn y broses.

Mae dyletswydd ar holl sefydliadau GIG Cymru i reoli ac ymchwilio'n gymesur i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion yn unol â [Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn\) \(Cymru\) 2011](#) a [GIG Cymru Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd \(Cymru\) 2023](#).


Digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion yw unrhyw ddigwyddiad anfwriadol neu annisgwyl a allai, neu a wnaeth, arwain at un neu ragor o gleifion yn cael gofal a ariennir gan y GIG. Bydd heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd, gan gynnwys COVID-19, mewn amgylchiadau penodol, yn cael eu hystyried yn ddigwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, yn dibynnu ar sut a phryd y daliwyd yr haint.

Er mwyn cynorthwyo sefydliadau'r GIG sy'n ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion COVID-19 nosocomiaidd, datblygwyd *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Digwyddiadau sy'n Ymwneud â Diogelwch Cleifion yn Dilyn Trosglwyddiad Nosocomiaidd COVID-19*, i sicrhau y dilynwyd dull mor gyson â phosibl a bod ymchwiliadau'n cael eu gwneud unwaith a'u gwneud yn dda.

Dros y rhaglen ddwy flynedd, mae'r fframwaith wedi cefnogi sefydliadau GIG Cymru i asesu 18,360 o achosion o COVID-19 nosocomiaidd ac ymchwilio iddynt pan oeddent yn bodloni'r diffiniad o ddigwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion.

Gan gydnabod effaith COVID-19 ar ddefnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd, gofawyr a staff GIG Cymru, mabwysiadodd y rhaglen ddull dysgu sy'n ceisio peidio â rhoi bai, ond gwneud y gorau o'r cyfle i ddysgu a gwella.

Cyfanswm yr achosion COVID-19 nosocomiaidd yr ymchwiliwyd gan bob byrddau/ymddiriedolaethau iechyd a ddigwyddodd rhwng Mawrth 2020 ac Ebrill 2022



## 4. Sut y mae'r hyn a ddysgwyd wedi'i nodi?

Mae'r hyn a ddysgwyd wedi'i nodi drwy ddulliau meintiol ac ansoddol amrywiol, gan gynnwys canfyddiadau ymchwiliad, profiadau pobl (defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd, gofalwyr a staff GIG Cymru), canfyddiadau cysylltiedig, a thrwy gydweithredu â phartneriaid mewnol ac allanol. Mae'r hyn a ddysgwyd hefyd wedi dod i'r amlwg drwy baneli craffu sefydliadol, a gynhelir yn annibynnol ar ymchwiliadau.

Mae'r hyn a ddysgwyd ar y cyd ar draws sefydliadau wedi'i gasglu'n themâu cenedlaethol i roi rhagor o gymorth i nodi'r meysydd gwella o ran ansawdd a diogelwch gwasanaethau, gan wella darpariaeth a phrofiad pobl. Mae'r ffynonellau dysgu'n cynnwys:

- Sefydlu'r rhaglen, gan gynnwys gwaith paratoi
- Rhoi prawf ar yr archwiliad enghreifftiol a'r asesiad effaith dilynol
- Ymchwiliadau
- Profiadau pobl (Defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd, gofalwyr a staff GIG Cymru)
- Adborth ehangach ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

## 5. Yr hyn a ddysgwyd o'r rhaglen

### 5.1 Profiadau pobl

#### 5.1.1 Gwasanaethau cymorth profedigaeth a gofal ar ôl marwolaeth

Gall mynediad at wasanaethau cymorth profedigaeth a gofal ar ôl marwolaeth o ansawdd uchel fod yn hynod ddefnyddiol wrth reoli galar. Pan sefydlwyd Rhaglen Genedlaethol COVID-19 Nosocmiaidd, ystyriwyd sut y byddai defnyddwyr gwasanaethau - yn enwedig y galarwyr - yn cael cymorth. Nodwyd gwahanrediad mewn llwybrau ar gyfer cyfeirio i wasanaethau cymorth profedigaeth, atgyfeiriadau atynt, a chael mynediad atynt ar draws sefydliadau GIG Cymru. Nid oedd gan rai o sefydliadau GIG Cymru wasanaethau pwrpasol sy'n cynnig cymorth yn dilyn profedigaeth.

Er mwyn helpu i leihau amrywiad wrth gael mynediad at gymorth profedigaeth, lansiwyd Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gofal mewn Profedigaeth yn 2021. Tynnodd y fframwaith sylw at yr angen am ddull cyson a theg ledled Cymru ar gyfer cael mynediad at gymorth profedigaeth. Oherwydd hyn, mae sefydliadau bellach â gwasanaethau cymorth profedigaeth pwrpasol.



Mae GIG Cymru wedi cydnabod y dylai cymorth fod ar gael i'r holl deuluoedd y cysylltir â nhw fel rhan o'r rhaglen ac mae wedi cydweithio â byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i sicrhau bod trefniadau cymorth profedigaeth ar waith i deuluoedd mewn profedigaeth pan gysylltir â nhw. Mae'r hyn a ddysgwyd wedi nodi y daeth hyn yn rhy hwyr i rai teuluoedd a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen, a bod effaith andwyol ar y broses brofedigaeth i rai teuluoedd.

### **Pethau allweddol a ddysgwyd**

Dylai gwasanaethau cymorth profedigaeth gael eu cynnig yn rhagweithiol i'r holl deuluoedd sy'n galaru yn sgil colli un o'u hanwyliaid. Mae hyn hefyd yn ystyriaeth hynod bwysig fel rhan o brosesau ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion.

Dylai teuluoedd gael eu cyfeirio'n rhagweithiol i wybodaeth am wasanaethau profedigaeth cyn gynted â phosibl.

### **Arfer da**

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gofal mewn Profedigaeth yn nodi sut y gall Cymru ymateb i'r rhai sy'n wynebu profedigaeth, neu sydd wedi cael profedigaeth. Mae'n cynnwys egwyddorion craidd, isafswm safonau gofal mewn profedigaeth ac amrywiaeth o gamau gweithredu i gefnogi gwaith cynllunio rhanbarthol a lleol.

Mae gwaith yn cael ei wneud gyda byrddau iechyd lleol a nifer o bartneriaid i ddatblygu llwybr profedigaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru, yn rhoi gwybodaeth a chanllawiau i fyrddau iechyd, a phawb sy'n rhan o'r ddarpariaeth cymorth profedigaeth, i hyrwyddo dull cyson o gael cymorth profedigaeth ledled Cymru.

Mae mesur profedigaeth ansoddol yn Fframwaith Rheoli Perfformiad y GIG sy'n weithredol o 2023/24 yn ymwneud â chynnydd sefydliadau i ymgorffori'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gofal mewn Profedigaeth yng Nghymru a'r Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gofal mewn Profedigaeth.

### **5.1.2 Cefnogi defnyddwyr gwasanaethau yn ystod proses ymchwilio**

Llywio a deall y broses bryderon a gwybod â phwy i gysylltu gyda chwestiwn yw'r gwahaniaeth weithiau rhwng deall y broses ac ymddiried ynnddi, neu anfodlonrwydd a diffyg ymddiriedaeth. Yn yr un modd, mae gwranddo ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr yn egwyddor sylfaenol wrth reoli pryderon yn dda, ac yn allweddol i sicrhau y gwneir y gorau o gyfleoedd dysgu.

Drwy gyswllt sy'n ymwneud ag ymchwiliadau diogelwch cleifion, mae adborth wedi nodi bod defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr wedi bod yn ddryslod o ran gwybod â phwy y dylent gysylltu a sut i drafod pryder neu geisio eglurhad ar hynt eu hachos.

Er mwyn gwella'r profiad hwn, sefydlodd sefydliadau gyswllt pum diwrnod unigol, pwrpasol i ddefnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr, wrth reoli pryder.

Ym mis Ebrill 2023, cyflwynwyd y Ddyletswydd Gonestrwydd yng Nghymru fel gofyniad cyfreithiol i sefydliadau GIG Cymru – yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn dryloyw gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaethau pan fyddant yn cael niwed wrth gael gofal iechyd. Mae'n ofynnol i sefydliadau GIG Cymru siarad â defnyddwyr gwasanaethau am ddiwyddiadau a'u cynnwys yn y broses ymchwilio.

Mae'r ddyletswydd yn adeiladu ar y canllawiau Gweithio i Wella, y broses sy'n sail i ymchwilio i bryderon a chwynion, gan ddarparu ffordd hawdd o godi cwynion a phryderon. Cyflwynwyd hyn i ategu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.

Dros y 12 mlynedd diwethaf, bu newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn cael mynediad at ofal iechyd, gan gynnwys galwadau ychwanegol ar y GIG yng Nghymru. Yn 2024, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad agored mewn perthynas ag adolygu trefniadau Gweithio i Wella. Diben hyn yw rhoi cleifion wrth wraidd y broses a sicrhau eu bod yn teimlo y gwrandewir arnynt. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Mai ac mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gwerthuso'r canfyddiadau.

### **Pethau allweddol a ddysgwyd**

Dylai pob defnyddiwr gwasanaeth, teulu a gofalwr fod â mynediad amserol at gyswllt unigol a phwrpasol y mae'n hawdd cael mynediad ato i ddarparu adborth, a chodi cwestiynau, pryderon neu ymholiadau. Mae hyn yn arbennig o allweddol i gleifion a theuluoedd sy'n cymryd rhan yn y broses bryderon.

Dylai gwybodaeth ategol fod ar gael a dylai fod yn hawdd cael mynediad ati er mwyn helpu teuluoedd i ddeall yr iaith sy'n gysylltiedig â'r broses bryderon sy'n gymhleth weithiau.

### **Arfer da**

Er mwyn sicrhau bod egwyddorion y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'u galluogi i ddefnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr, sefydlwyd cyfres o isafswm safonau ar gyfer sut y dylai gwasanaethau ymgysylltu â phobl. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi dull cydgysylltiedig o drin ymholiadau am COVID-19 nosocmiaidd, gyda rhwyddineb mynediad i ymdrin ag ymholiadau ychwanegol neu bryderon ehangach ynghylch COVID-19 nosocmiaidd.



Mae Rhaglen Genedlaethol COVID-19 Nosocmiaidd wedi ymgysylltu â sefydliadau GIG Cymru i gydlynu cynllun peilot o un o'r arolygon cenedlaethol cyntaf sy'n rhychwantu ardaloedd yr holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau. Mae arolygon wedi'u datblygu i gasglu adborth drwy brofiad gan gleifion, gofawyr, a theuluoedd sydd wedi cymryd rhan yn y broses ymchwilio. Mae'r cynllun peilot sydd wedi'i brofi gyda maint sampl bach wedi dangos sut y gallai CIVICA fod â rhagor o werth pe bai'n cael ei gymhwyso i brosesau ymchwilio'n ehangach.

### 5.1.3 Cyfyngiadau ymweld

Mae ymwelwyr yn rhan bwysig o wellhad claf, gyda thystiolaeth yn barhaus yn pwysleisio rôl gadarnhaol ymwelwyr ar ganlyniadau, fel arosiadau byrrach ac amseroedd gwella cyflymach i gleifion. Cydnabyddir mai teuluoedd a gofawyr sydd yn aml yn y lle gorau i sylwi ar ddirywiad a nodi anghenion un o'u hanwyliaid.

Mae cyfyngiadau ymweld yn ddull a ddefnyddir mewn ymateb i frigiadau o achosion heintus mewn lleoliadau gofal iechyd. Cyflwynwyd cyfyngiadau yn ystod COVID-19 i helpu i leihau trosglwyddiad o leoliadau cymunedol i amgylcheddau ysbyty, ac yn enwedig i leddfu'r risg i grwpiau cleifion agored i niwed.

Nododd y rhaglen, drwy adborth defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofawyr, fod cyfyngiadau ymweld yn cael llawer o effeithiau andwyol ar iechyd corfforol a meddyliol cleifion - yn enwedig yn y grwpiau agored i niwed y bwriadwyd i'r cyfyngiadau eu diogelu, nad oedd llawer ohonynt yn gallu deall yn llawn y penderfyniadau a wnaed. Roedd y trefniadau amgen cyfyngedig ar gyfer cysylltu a chyfathrebu ag anwyliaid hefyd yn cael effaith negyddol ar y profiad i lawer o ddefnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofawyr eraill.

Pwysleisiodd ymchwiliadau fod teuluoedd yn aml yn dibynnu ar dimau clinigol a staff ward i gysylltu â'u hanwyliaid. Er y tynnwyd sylw bod y dull cyfathrebu hwn, yn bennaf, yn un cadarnhaol, mae achosion pan oedd y cyfathrebu islaw'r safonau disgwyliedig, yn enwedig yr anallu i gysylltu yn ystod cyfnodau prysur.



## Pethau allweddol a ddysgwyd

Dylai fod gan yr holl wasanaethau a wardiau dimau cymorth cleifion pwrpasol a enwir a gwirfoddolwyr i gefnogi teuluoedd a gofalwyr sy'n cael trafferth ymweld ag un o'u hanwyliaid yn yr ysbyty.

Dylai canllawiau ymweld yn y dyfodol gyfeirio'n benodol at rôl gofalwyr fel rhan bwysig o dîm gofal claf. Mae byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau bellach yn cydnabod hyn ymhellach mewn sefyllfaoedd lle y mae angen gweithredu cyfyngiadau ymweld.

## Arfer da


Datblygodd sefydliadau lawer o ffyrdd arloesol i leihau effaith cyfyngiadau ymweld, gan gynnwys ymweliadau rhithwir drwy ddyfeisiau llechi, ymweliadau awyr agored a defnyddio timau cymorth cleifion yn y ward i bontio'r bwlch. Mae sefydliadau'n parhau i ddefnyddio'r dulliau hyn i gefnogi cyswllt.

Roedd gwirfoddolwyr hefyd â rôl allweddol wrth bontio'r bwlch, yn enwedig yn ddiweddarach yn y pandemig. Mae llawer o sefydliadau wedi parhau i gryfhau'r gwasanaethau hyn a gwella hyfforddiant staff.

Gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig a mesurau profiadau cleifion eraill, mae Fframwaith Profiad Pobl GIG Cymru yn cael ei ddatblygu i gefnogi arfer gorau wrth fesur profiad a defnyddio dirnadaethau i lywio gwelliannau.

Gan gydnabod gwerth gofalwyr mewn gofal cleifion, mae canllawiau ymweld cenedlaethol diwygiedig bellach yn dweud na ddylid ystyried gofalwyr fel ymwelwyr ac y dylent gael cynllun presenoldeb unigol gyda'r maes clinigol priodol.

Gyda chymorth Gwelliant Cymru, y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd a'u swyddogaethau gwella eu hunain fel rhan o'r Gydweithredfa Gofal Diogel, mae timau mewn dau fwrdd iechyd wedi cydweithio i dreialu gwasanaethau Call 4 Concern Mae'r fenter diogelwch cleifion, sy'n helpu i fynd i'r afael â phryderon teulu/ymwelwyr am ddirywiad cleifion, yn darparu lefel ychwanegol o wladwriaeth ac adolygu clinigol amserol.



#### 5.1.4 Cyfathrebu â theuluoedd a gofalwyr

Mae cynnwys teuluoedd a gofalwyr mewn gofal cleifion yn hynod o bwysig. Yn enwedig pan fo anwyliaid yn eithriadol o sâl, gall diweddariadau rheolaidd a chyfathrebu gan dimau ward fod o gysur mawr i deuluoedd a gofalwyr.

Mae staff yn ymdrechu i gyfathrebu â theuluoedd a gofalwyr ac yn cydnabod gwerth helaeth hyn. Fodd bynnag, mewn cyfnodau o alw parhaus a phwysau gweithlu, roedd staff weithiau'n gorfod blaenoriaethu anghenion clinigol cleifion eraill dros gyfathrebu.

Mae hefyd yn werth nodi bod cyfyngiadau ymweld wedi cael effaith negyddol ar gyfathrebu ar adegau, gan fod ymweld yn aml yn gyfle defnyddiol i gyfathrebu â theuluoedd a gofalwyr.

Drwy'r broses ymchwilio, mae'r rhaglen wedi nodi rhywfaint o dystiolaeth o brofiad gwael ynghylch cyfathrebu ynglŷn â diweddariadau cleifion gan gynnwys; symudiadau ward, hysbysu ynghylch canlyniadau positif profion COVID-19, triniaeth a chynlluniau rhyddhau cleifion.

#### Pethau allweddol a ddysgwyd

Cafodd y straen a roddwyd ar staff ward effaith negyddol ar gapasiti a gafodd effaith andwyol ar gyfathrebu â theuluoedd a gofalwyr cleifion.

Mewn cyfnodau o bwysau eithafol, gall timau a gwirfoddolwyr y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion, pan fo'n briodol, fod yn effeithiol i gefnogi cyfathrebu wrth i staff ward flaenoriaethu anghenion gofal cleifion.

#### Arfer da

Cafodd timau a gwirfoddolwyr y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion effaith gadarnhaol ar gyfathrebu â theuluoedd a gofalwyr yn ddiweddarach yn y pandemig pan oedd cyfyngiadau mesurau atal a rheoli heintiau wedi'u llacio. Mae sefydliadau'n parhau i adeiladu ar sut y gall timau a gwirfoddolwyr y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion ddarparu cymorth gwerthfawr i gleifion a theuluoedd.

Mae adborth cleifion, teuluoedd a gofalwyr, yn ogystal â chofnodion cleifion, wedi dangos enghreifftiau o gyfathrebu da a ddangosodd lawer o dosturi. Roedd hyn yn nodedig yn enwedig ynghylch prosesau rhyddhau cleifion a gofal diwedd oes.

Yn ddiweddar, mae un bwrdd iechyd yng Nghymru wedi dechrau cynllun peilot technoleg gyfathrebu ddigidol newydd sy'n ceisio gwella dulliau cyfathrebu â theuluoedd a gofalwyr pan fydd un o'u hanwyliaid yn yr ysbyty. Mae'r cymhwysiad gwe yn caniatáu i negeseuon grŵp gael eu hanfon gan staff ward, a all gynnwys diweddariadau i amseroedd ymweld ward neu hysbysu am frigiad o achosion ar ward. Bydd negeseuon personol at unigolion ynghylch claf penodol hefyd yn nodwedd allweddol.

## 5.2 Digwyddiadau a phryderon sy'n ymwneud â diogelwch cleifion

### 5.2.1 Digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion y tu allan i leoliadau GIG Cymru

Mae cleifion yn aml yn cael gofal a ariennir gan y GIG mewn lleoliadau eraill, er enghraifft, yn eu cartrefi eu hunain, cartrefi gofal, a chyfleusterau y tu allan i Gymru. Er bod cyfrifoldeb ar sefydliadau GIG Cymru, dan y Ddyletswydd Gonestrwydd, i sicrhau y caiff digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion sy'n digwydd i'w poblogaeth leol eu hadrodd iddynt, gall y gofyniad i gynnal ymchwiliadau newid.

Wrth gymhwyso'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Digwyddiadau sy'n Ymwneud â Diogelwch Cleifion yn Dilyn Trosglwyddiad Nosocomiaidd COVID-19, nodwyd bod y ffordd y mae'r Rheoliadau'n cael eu cymhwyso mewn rhannau gwahanol o'r system iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â sectorau eraill fel darparwr annibynnol (gwasanaeth preifat a chyhoeddus), yn amrywiol ac yn ddryslyd.

Mae'r hyn a ddysgwyd wedi nodi, er bod y Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol cynnal ymchwiliad ar gyfer pryderon sy'n ymwneud â throsglwyddo COVID-19 yn ystod gofal iechyd a ariennir gan y GIG, fod nifer o wahaniaethau pan fo gofal wedi'i ddarparu gan sefydliad nad yw'n rhan o'r GIG. Er enghraifft, pwy sy'n cynnal yr ymchwiliad, sut y mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo, y gofyniad i wneud iawn a sut y mae sefydliadau GIG Cymru sy'n ariannu'r gofal yn cael eu hysbysu.

Nododd y rhaglen fod y Rheoliadau'n creu amrywioldeb ac annhegwch i ddefnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr sy'n cael gofal iechyd a ariennir gan y GIG gan ddarparwr arall pan godir pryder. Ar sail y Rheoliadau, nid yw'r rhaglen bresennol yn estyn i ymchwilio i'r holl achosion o COVID-19 nosocomiaidd a ddigwyddodd drwy leoliad darparwr annibynnol dan ofal a ariennir gan y GIG, gan gynnwys cartrefi gofal.

Mae tystiolaeth o brofiad defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr sy'n gysylltiedig â'r rhaglen hyd yn hyn, yn awgrymu nad ydynt yn cael eu hysbysu o'r gwahaniaethau hyn fel mater o drefn.

### Pethau allweddol a ddysgwyd

Dylai'r holl bolisiâu a gweithdrefnau sy'n ymwneud â rheoli digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion yn ystod gofal a ariennir gan y GIG osod disgwyliadau o'r safonau sy'n ofynnol ar draws yr holl leoliadau gofal i leihau dryswch i ddefnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr y mae'n bosibl eu bod yn derbyn gofal ar draws llwybrau gofal cymhleth lluosog.

### Arfer da

Mae'r hyn a ddysgwyd o'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Digwyddiadau sy'n Ymwneud â Diogelwch Cleifion yn Dilyn Trosglwyddiad Nosocomiaidd COVID-19 wedi'i rannu â chydweithwyr gofal cymdeithasol. Mae canllaw arfer da wedi'i ddatblygu ar gyfer gwasanaethau cymorth nad ydynt yn rhan o'r GIG mewn sectorau eraill i gymhwyso dull mwy cyson a safonol o ymdrin â phryderon mewn lleoliadau gofal cymdeithasol a chartrefi gofal.

### **5.2.2 Nodi heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd fel digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, eu hadrodd ac ymchwilio iddynt**

Mae dysgu o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion yn elfen bwysig i wella ansawdd gofal, a dysgu'n barhaus sut i leihau effaith heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd a'r effaith ar gleifion.

Y tu hwnt i reoli COVID-19 nosocomiaidd fel digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, mae'r hyn a ddysgwyd wedi nodi bod amrywiaeth yn y trefniadau presennol yn GIG Cymru ar gyfer nodi'r holl heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd sy'n bodloni'r diffiniad o ddigwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, eu hadrodd ac ymchwilio iddynt.

Nododd y rhaglen hefyd dulliau anghyson ledled Cymru o reoli ac adrodd heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd ac amrywiadau yn y fethodoleg a ddefnyddir i ymchwilio i ddigwyddiadau o'r fath. At hynny, dangoswyd nad yw'r defnydd o ddiffiniadau gwyladwriaeth yn GIG Cymru yn awtomatig yn arwydd bod digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion wedi digwydd.

Mae Bwrdd Cyflawni Heintiau a Ddelir wrth Gael Gofal Iechyd newydd wedi'i sefydlu i gydlynu ymhellach y dulliau cenedlaethol o ddysgu a gwella ar draws GIG Cymru, gan leihau risgiau a gwella arferion. Mae'r Polisi Cenedlaethol ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau sy'n Ymwneud â Diogelwch Cleifion hefyd wedi'i ddiweddarau i gynnwys COVID-19 yn unol â heintiau eraill a ddelir wrth gael gofal iechyd.

#### **Pethau allweddol a ddysgwyd**

Mae angen i'r holl heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd gael eu hasesu yn erbyn y gofyniad i'w hadrodd fel digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, yn unol â'r polisi digwyddiadau cenedlaethol, ac mae angen cychwyn ymchwiliad priodol i ddiogelwch cleifion.

#### **Arfer da**

O ganlyniad i'r dysgu hyn, mae'r polisi cenedlaethol ar adrodd digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu gofynion adrodd cenedlaethol newydd ar gyfer heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd, gan gynnwys adrodd COVID-19 nosocomiaidd.



### 5.2.3 Cymhwyso'r penderfyniadau na cheisier dadebru cardio-anadlol

Nod na cheisier dadebru cardio-anadlol yw amddiffyn pobl rhag dioddefaint diangen drwy gael dadebriad nad ydynt am ei gael, na fydd yn gweithio, neu pan fo'r niwed yn gwrthbwysu'r buddion. Mae'n alluogwr allweddol wrth hyrwyddo marwolaeth urddasol.

Thema gyffredin ymhlith y pryderon a godwyd gan deuluoedd a gofalwyr ar ddechrau'r rhaglen oedd cymhwyso penderfyniadau na cheisier dadebru cardio-anadlol i gleifion a ddaliodd COVID-19. Roedd rhai o'r themâu ymhlith y pryderon yn ymwneud â barn bod 'dull cyffredinol' o gymhwyso'r penderfyniad pan oedd rhywun wedi cael diagnosis o COVID-19, a diffyg gwybodaeth neu ymgynghoriad wrth gymhwyso'r penderfyniad.

Mae canfyddiadau o ymchwiliadau a ffynonellau eraill fel y Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol ac adolygiadau marwolaethau wedi nodi y bu angen i wneud y canlynol:

- Gwella'r disgrifiad o gydafiacheddau cleifion a'u heffaith ar y rheswm i benderfyniad na cheisier dadebru cardio-anadlol gael ei weithredu
- Gwella cyfathrebu, yn enwedig ynghylch y sail resymegol dros weithredu penderfyniad na cheisier dadebru cardio-anadlol a thrafodaethau â chleifion, teuluoedd a gofalwyr
- Gwella dogfennaeth sy'n ymwneud â thrafodaethau â chleifion, teuluoedd a gofalwyr
- Gwella'r ddogfen na cheisier dadebru cardio-anadlol, yn enwedig ynghylch a ddylai penderfyniad gael ei adolygu os bydd cyflwr claf yn gwella

Er nad yw penderfyniad na cheisier dadebru cardio-anadlol yn fanwl gywir yn gofyn am gydsyniad gan y perthynas agosaf neu ofalwr cyn ei gymhwyso, oni bai bod diffyg galluedd gan y claf, mae'r hyn a ddysgwyd o'r ymchwiliadau wedi cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu o'r fath, a'r effaith y gall rheoli'r pwnc sensitif hwn ei chael pan gaiff ei reoli'n dda ac, yn yr achosion hyn, pan na chaiff ei reoli cystal.

Ni nododd y dadansoddiad dystiolaeth na thueddiadau bod penderfyniadau na cheisier dadebru cardio-anadlol wedi'u gosod yn amhriodol, nac yn anghyson â pholisi presennol Cymru gyfan ynghylch penderfyniadau na cheisier dadebru cardio-anadlol.

#### Pethau allweddol a ddysgwyd

Mae defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr yn gosod gwerth mawr ar gyfathrebu da ynghylch proses penderfyniadau na cheisier dadebru cardio-anadlol a'r angen i gael eu cynnwys cymaint â phosibl yn y broses o wneud penderfyniadau. At hynny, ystyrir bod datblygiad parhaus a chyflwyno dogfen cynllunio gofal uwch electronig, yn allweddol i welliannau a fyddai'n cefnogi clinigwyr yn ystod y broses ac yn lleddfu rhai o'r materion posibl ynghylch dogfennaeth na cheisier dadebru cardio-anadlol a chyfathrebu ehangach.

#### Arfer da

Mae Grŵp Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw ac yn y Dyfodol Strategol Cymru Gyfan sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau'r GIG. Mae'r grŵp wedi cytuno i gryfhau'r adran yn y polisi sy'n ymwneud â chyfathrebu priodol ac amserol â chleifion a theuluoedd. Ystyrir bod hyn yn gam pwysig i gefnogi clinigwyr i symud y tu hwnt i broses ffurfiol na cheisier dadebru cardio-anadlol, gan ddarparu canllawiau defnyddiol a chymorth o ran sut, pryd ac â phwy y dylid cyfathrebu i sicrhau dealltwriaeth a lleihau gofid.

Yn 2023, cyhoeddwyd Fframwaith Cymhwysedd Cymru Gyfan er budd Llenwi'r Ffurflen DNACPR i gefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â gofal diwedd oes gyda sgysiau cleifion ynghylch penderfyniadau na cheisier dadebru cardio-anadlol. Rhannwyd hyn â byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ledled Cymru i'w weithredu.

Yn unol â Fframwaith Adolygu Dysgu o Farwolaethau Cymru Gyfan, mae sefydliadau GIG Cymru wedi bod yn cynnal adolygiadau thematig lleol mewn perthynas â phenderfyniadau na cheisier dadebru cardio-anadlol, ac mae adolygiad thematig cenedlaethol hefyd wedi'i gynnal. Mae adolygiad thematig yn broses sy'n helpu sefydliadau i ddeall yr hyn a ddigwyddodd mewn achosion lluosog a fu'n destun rhagor o ymchwiliad, y mae nodweddion cyffredin yn eu cysylltu, i ddysgu ohonynt ac i wneud newidiadau a fydd yn arwain at welliannau o ran diogelwch ac ansawdd gwasanaeth. Yn dilyn yr adolygiad thematig cenedlaethol, lluniwyd cynllun gweithredu sy'n tynnu sylw at feysydd i'w gwella i fwrw ymlaen ag ef ynghylch pynciau fel dealltwriaeth, ymwybyddiaeth, cyfathrebu, hyfforddiant a phrosesau.

#### **5.2.4 Cadw cofnodion clinigol**

Mae cadw cofnodion clinigol amserol a chywir yn hanfodol i gyfathrebu rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan hyrwyddo diogelwch cleifion, ansawdd gofal a pharhad gofal effeithiol.

Mae cofnodion clinigol yn nodyn atgoffa pwysig o ran pa ofal y mae claf wedi'i gael, gan gynnwys diagnosis, triniaethau, ymgynoriadau, camau gweithredu a chanlyniadau. Maent yn bwynt cyfeirio hanfodol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â gofal claf i ddeall hanes a chynllun triniaeth y claf. Os bydd ymholiad am safon y gofal, mae cofnodion clinigol yn dangos y gofal a ddarparwyd.

Drwy gydol y pandemig, cydnabyddir yn eang bod gwasanaethau gofal iechyd wedi wynebu pwysau system eithafol a oedd yn aml yn golygu bod angen i staff flaenoriaethu anghenion clinigol uniongyrchol cleifion. O ganlyniad, nid oedd cofnodion clinigol weithiau'n cyrraedd y safonau disgwylidig.

Mae ymchwiliadau drwy Raglen Genedlaethol COVID-19 Nosocomiaidd wedi nodi eglurder a chywirdeb fel maes y mae angen ei wella mewn rhai cofnodion clinigol, sydd yn aml heb fanylion a sail resymegol, neu heb eu cofnodi mewn modd amserol. Mae'n debygol y byddai hyn yn her i dimau clinigol sy'n darparu gofal, ac yn ymestyn y broses ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion. Ar adegau, gellir priodoli cadw cofnodion gwael i'r ffaith y bu'n ofynnol i staff hunanyysu gartref ar fyr rybudd heb fynediad at nodiadau clinigol copi caled.

Mae cofnod clinigol yn annatod i ddiogelwch cleifion, mae ymchwiliadau'n dangos y dogfennodd staff clinigol wybodaeth gofal a thriniaeth allweddol yn y rhan fwyaf o'r achosion a adolygwyd. Fodd bynnag, roedd diffyg manylion mewn rhai achosion a gwybodaeth gyfyngedig am gyfathrebu â thelueodd.

#### **Pethau allweddol a ddysgwyd**

I gofnodion clinigol gael eu llenwi i safon uchel, mae angen amser ar staff clinigol i ganolbwyntio ar gadw cofnodion. Mae'n bosibl bod gwerth ehangach o ran ailddatgan i staff clinigol y gwerth o ran cadw cofnodion a sut y mae'n cefnogi'r agenda diogelwch cleifion a phrosesau ymchwilio.

Mae atebion digidol ar gyfer cadw cofnodion clinigol yn cefnogi arfer da, yn gwella eglurder a mynediad amserol at nodiadau. Bydd gwaith sy'n mynd rhagddo gan lechyd a Gofal Digidol Cymru a sefydliadau GIG Cymru i ymgorffori systemau fel Cofnod Gofal Nyrsio Cymru ar-lein yn gwella ansawdd cadw cofnodion ac yn gwella diogelwch cleifion.

## Arfer da

Mewn llawer o achosion, roedd safon cadw cofnodion clinigol yn dda ac yn dangos ansawdd uchel y gofal a ddarparwyd, ac yn nodedig y tosturi a ddangoswyd gan staff, er iddynt fod dan bwysau digynsail. Yn niffyg ymweliadau, dangosodd llawer o gofnodion clinigol fod staff clinigol yn hynod sylwgar ac yn gwneud ymdrech ychwanegol i gefnogi cleifion a chyfathrebu â theuluoedd. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ynghylch gofal diwedd oes a chyda chleifion difrifol wael.

Er bod angen rhai gwelliannau ynghylch eglurder a chywirdeb cadw cofnodion clinigol, roedd enghreifftiau ardderchog o gofnodion clir a chryno, gyda sail resymegol fanwl a gwybodaeth am gyswllt â theuluoedd a gofalwyr.

Lansiodd Cofnod Gofal Nyrsio Cymru ym mis Ebrill 2021, gan ddisodli nodiadau nyrsio cleifion mewnol oedolion papur â system ddigidol ddiogel a thrawsnewid y ffordd y mae nyrsys yn cofnodi ac yn storio gwybodaeth ac yn cael mynediad ati. Mae gan y dogfennau digidol hyn iaith nyrsio safonol, sy'n gwella cywirdeb ac yn ei gwneud yn haws rhannu gwybodaeth rhwng lleoliadau. Mae Cofnod Gofal Nyrsio Cymru bellach yn fyw yn yr holl fyrddau iechyd ledled Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre, ac yn cael ei ddefnyddio ar draws mwy na 300 o wardiau. Ym mis Ebrill 2024, mae bron 13 miliwn o nodiadau nyrsio cleifion mewnol wedi'u cofnodi yn y system ac mae bron 21 filiwn o asesiadau risg digidol wedi'u cwblhau.



### 5.2.5 Staffio ac adnoddau

Un o'r heriau mwyaf sylweddol drwy gydol pandemig COVID-19 oedd cynnal darpariaeth staff i ddarparu gofal diogel, ansawdd uchel ac amserol i gleifion. Rhoddodd cynnydd yn nifer y cleifion yn yr ysbyty a salwch mwy difrifol, ar y cyd ag absenoldeb staff (yn aml oherwydd COVID-19 a/neu'r angen i hunanynysu), bwysau enfawr ar weithluoedd y GIG.

Mae safonau cenedlaethol ar waith i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar draws nifer o ddisgyblaethau ac mae'n ofynnol i holl gyrff y gwasanaeth iechyd gynnal darpariaeth staffio briodol i ddarparu'r gofal gorau posibl i gleifion.

Yn ystod dechrau pandemig COVID-19, cafodd ffyrdd nodweddiadol o weithio eu gohirio neu eu newid er mwyn sicrhau y gallai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ymateb i'r risgiau a gyflwynwyd gan y pandemig.

Cafodd llawer o staff y GIG eu hadleoli i feysydd lle roedd mwy o alw neu lle roedd lefelau staffio wedi disbyddu. Cafodd llawer o staff eu defnyddio hefyd i helpu gyda'r rhaglen frechu a phrofion. Yn ogystal, cafodd nifer o wardiau ysbyty eu haddasu at ddibenion gwahanol i sefydlu capasiti ychwanegol yn seiliedig ar anghenion cleifion. Ni ddylid tanbrisio hyblygrwydd staff yn mynd i weithio mewn meysydd gwahanol.

Mae ymchwiliadau wedi dangos, mewn cyfnodau o ansicrwydd a thralod enfawr, y gadawodd staff eu hamgylcheddau gwaith cyfarwydd er budd gofalu am gleifion. Er gwaethaf amrywiadau mewn cymysgedd sgiliau, cymhwysedd a phrofiad, atebodd staff yr her. Mae'r canfyddiadau hefyd yn tynnu sylw at sut roedd cyfraniadau graddedigion newydd a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn allweddol wrth ddarparu gofal cleifion mewn cyfnodau o bwysau mor ddwys.

Cyn y pandemig, mae'r GIG yng Nghymru, a'r DU yn ehangach, wedi wynebu heriau o ran recriwtio a chadw staff. Mae ymchwiliadau'n atgyfnerthu sut y dwysodd y cyfraddau swyddi gwag a oedd yn bodoli eisoes y pwysau gweithlu yn ystod y pandemig. Roedd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'n hynod ystwyth wrth adolygu capasiti a galw a nodi'r lle gorau ar gyfer adnoddau ar sail anghenion cleifion.

Defnyddiodd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau staff asiantaeth pan oedd yn bosibl er mwyn cyflenwi absenoldeb a/neu wella adnoddau. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gwnaeth staff asiantaeth gyfraniad hynod werthfawr fel rhan o weithlu GIG Cymru. Fodd bynnag, roedd gweithio mewn amgylcheddau anghyfarwydd gyda systemau a phrosesau gwahanol weithiau'n rhoi pwysau ychwanegol ar staff a gyflogir gan y GIG a staff asiantaeth, gan effeithio ar ansawdd y gofal.


Er gwaethaf yr ymdrechion gorau, roedd lefelau staffio dan straen sylweddol ac, ar rai adegau, nid oedd sefydliadau GIG Cymru yn gallu cynnal lefelau staffio diogel.

Canlyniadau anfwriadol hyn, ar y cyd â heriau gweithlu ehangach, oedd risgiau uwch i ddiogelwch cleifion a gofal is-optimaid. Dylid nodi, dan yr amgylchiadau hyn, iddi fod yn adeg ofidus i gleifion, teuluoedd, gofalywyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd bob amser yn ymdrechu i gynnal y safonau gofal uchaf.



Mae 'Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn strategaeth 10 mlynedd a lansiwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Hydref 2020 ag uchelgais 'Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Brwd a Chynaliadwy'. Rhennir y strategaeth yn dri cham gyda gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ddatblygu'r cynllun gweithredu ar gyfer cam dau. Y cyfeiriad hirdymor yw sicrhau bod gweithlu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Yn ogystal, gan adeiladu ar y cyfeiriad strategol hwn, gweithredodd Llywodraeth Cymru 'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu' ym mis Ionawr 2023, o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig pan oedd gweithwyr gofal iechyd, er gwaethaf lefelau staffio mwy nag erioed, wedi'u hestyn i'r eithaf. Mae'r cynllun yn tynnu sylw at nifer o gamau gweithredu y mae angen eu datblygu er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r pwysau mwyaf dybryd yn y GIG, gan gynnwys recriwtio a chadw.



### **Pethau allweddol a ddysgwyd**

Mae gwerth helaeth wrth barhau â gwaith i wella darpariaeth staffio gofal iechyd. Rhaid i waith recriwtio a chadw barhau i fod yn flaenoriaeth ar draws GIG Cymru ar gyfer parodwydd a chydnerthedd mewn sefyllfa pandemig yn y dyfodol.

### **Arfer da**

Roedd staff GIG Cymru yn hynod ystwyth drwy gydol y pandemig, yn aml yn gweithio mewn amgylcheddau anghyfarwydd er budd gofal cleifion a darparu gwasanaethau.

Ymatebodd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'n brydlon i gapasiti a galw a oedd yn newid yn gyson, ar y cyd â lefelau adnoddau a oedd yn amrywio'n gyflym. Ymatebodd llawer o sefydliadau gyda thimau pwrpasol i fonitro lefelau staffio a gweithredu'n gyflym i'w cynnal. Roedd y ffordd roedd sefydliadau cyfan yn cydweithio i ddefnyddio adnoddau yn y lle gorau'n cael effaith sylweddol ar gynnal darpariaeth gofal mewn modd diogel.

## 5.3 Atal a rheoli heintiau

### 5.3.1 Cyhoeddi a dosbarthu canllawiau

Mae polisi a chanllawiau cenedlaethol ar atal a rheoli heintiau'n elfennau hanfodol wrth helpu sefydliadau gofal iechyd i ddatblygu a gweithredu strategaethau lleol sy'n helpu i leihau risg heintiau. Mewn ymateb i'r pandemig, lluniwyd canllawiau atal a rheoli heintiau'r DU ar draws pedair gwlad y DU a chawsant eu cyhoeddi gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (Iechyd Cyhoeddus Lloegr gynt).

Oherwydd yr angen i ymateb yn gyflym i'r risg sylweddol i iechyd y boblogaeth roedd COVID-19 yn ei pheri, cyhoeddwyd diweddariadau canllawiau'n fynych, ar fyr rybudd ac yn aml y tu allan i oriau busnes arferol. Roedd y cynnydd cyflym yn nifer yr achosion o COVID-19 a'r galw mawr ar iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â thystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg, yn golygu ei bod yn angenrheidiol diweddaru canllawiau bron bob wythnos, weithiau'n amlach.

Mae profiad staff GIG Cymru wedi dangos pa mor fynych roedd y canllawiau'n cael eu diweddaru, gan greu heriau i dimau atal a rheoli heintiau a oedd eisoes yn estynedig, sy'n gyfrifol am arwain y newidiadau angenrheidiol ar gyfer yr holl heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd ar draws sefydliadau sydd yn aml yn fawr ac yn gymhleth. Yn naturiol, gall gymryd amser i asesu a lleadaenu canllawiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau wneud addasiadau sylweddol i ddarpariaeth gofal. Er enghraifft, newidiadau i lwybrau gofal, canllawiau ar gyfarpar diogelu personol, a phrosesau profi.

Roedd y disgwyliad y dylai canllawiau gael eu gweithredu ar unwaith, ar ôl eu cyhoeddi, yn her sylweddol yn ystod y pandemig, yn enwedig o gofio lefel yr adnoddau sy'n ofynnol i sicrhau hyfforddiant, cyfathrebu a chymhwyso ar draws niferoedd gweithlu mawr a lleoliadau. Effeithiodd y gweithrediad ar staff a oedd yn gweithio shifftiau a/neu a oedd i ffwrdd yn sâl, gan ei gwneud yn anodd cadw'n gyfochrog â newidiadau mewn canllawiau sy'n ymwneud â'u harfer.

Wrth gydnabod bod diweddariadau i bolisi atal a rheoli heintiau'n hanfodol, dylai'r GIG yng Nghymru ystyried sut y mae diweddariadau'n cael eu dosbarthu a'u cyfleu pan fo sylfaen dystiolaeth yn datblygu'n gyflym mewn sefyllfa pandemig yn y dyfodol.

### Pethau allweddol a ddysgwyd

Anogir sefydliadau GIG Cymru i barhau i archwilio a gweithredu dulliau cyfathrebu digidol sy'n cefnogi cyfathrebu â chydweithwyr mewn modd amserol ac ymgysylltiol ar ddiweddariadau i ganllawiau.



### 5.3.2 Rheoli brigiad o achosion

Mae profi'n fecanwaith pwysig wrth nodi ac atal clefydau heintus, gan gynnwys COVID-19. Mae mynediad at brofion priodol a dychwelyd canlyniadau profion yn amserol yn hanfodol i liniaru ac atal lledaeniad clefydau heintus ymhellach.

Roedd mwy o alw am brofion COVID-19 yn ystod y pandemig yn her sylweddol i'r seilwaith profi presennol, a oedd yn dal i orfod rheoli darpariaethau arferol fel profion gwaed i gleifion mewnol. Roedd mwy o alw na'r capasiti a'r anallu i brofi'n gyflym ar gyfer COVID-19 yn ystod cyfnodau o 2020, yn golygu bod profion ychydig yn aneffeithiol fel mecanwaith ar gyfer lleihau heintiau, nes bod cyflenwad deunyddiau traul yn ateb y galw a bod y capasiti profi wedi cynyddu.

Oherwydd heriau capasiti profi ar ddechrau'r pandemig, cafodd cleifion eu rhyddhau i leoliadau gofal eraill neu eu cartrefi eu hunain heb y gallu i brofi ar gyfer COVID-19. Roedd hyn yn unol â'r canllawiau cenedlaethol ar y pryd, nad oedd yn dweud bod angen canlyniadau negatiff i brofion cyn trosglwyddo/derbyn i leoliadau preswyl.

Roedd rhagor o ganllawiau'r DU, yn enwedig ar ddechrau'r pandemig, yn annog rhyddhau cleifion o ysbytai i leoliadau cartrefi gofal, i ryddhau capasiti ysbyty er mwyn rheoli'r galw disgwylidig am wasanaethau.

Er y cafodd strategaeth brofi a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ei lansio ar 15 Gorffennaf 2020, roedd heriau sylweddol wrth gymhwyso'r polisi oherwydd mynediad cyfyngedig at faint o eitemau traul a oedd yn ofynnol i gynnal profion, a chapasiti labordai i reoli'r galw eithafol. Cyflawnwyd capasiti ychwanegol y tu hwnt i'r seilwaith presennol gyda lansiad y Labordy Goleudy (IP5), tua diwedd mis Awst 2020. Roedd hyn yn golygu y daeth yn haws ac yn gyflymach profi cleifion a staff ar gyfer COVID-19.



Yn ogystal â phrofi, mae ynysu'n rhan bwysig wrth atal a rheoli lledaeniad heintiau, yn enwedig mewn lleoliadau gofal iechyd. Gall profion amserol, yn ogystal â'r gallu i ynysu cleifion yr amheuir bod ganddynt haint neu'r rhai sydd wedi cael canlyniad positif i brawf helpu i atal trosglwyddo ymhellach. Mae'n bwysig nodi bod ynysu'n un o nifer o fesurau rheoli a bod rhaid ei ddefnyddio ar y cyd â mesurau eraill er mwyn bod yn effeithiol.

At hynny, dylid nodi bod ynysu at ddiben haint yn dod â risgiau ychwanegol i gleifion ag anghenion gofal eraill, yn enwedig i bobl hŷn ac agored i niwed, fel cwmpadau. Dylai penderfyniadau i ynysu cleifion at ddiben haint, hyd yn oed pan fo ynysu ar gael, gael eu hystyried mewn ffordd gyfannol, risg gytbwys, nad yw'n cyflwyno risg o niwed ychwanegol.

Roedd hen ystad a chyfleusterau ynysu cyfyngedig (fel mynediad at ystafelloedd sengl) yn golygu ei bod yn aml na allai cleifion ynysu, a sefydlwyd carfannu i gynnal llif gweithredol drwy ysbytai pan oedd galw eithafol. Roedd yr anallu i ynysu cleifion yn golygu yn aml bod defnyddwyr gwasanaethau, mewn ymdrech i leihau lledaeniad heintiau, yn destun symudiadau ward lluosog.

Yn unol â chanllawiau'r DU, roedd cyflwyno llwybrau gofal dynodedig, a oedd yn ceisio atal trosglwyddo ymhellach (cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol), yn rhan sylweddol mewn symudiadau ward lluosog - yn enwedig mewn ystadau hŷn.

Canfu profiad teuluoedd a gofalywyr eu bod yn aml heb eu hysbysu am y symudiadau hyn, a oedd yn arwain at anawsterau cyfathrebu ychwanegol wrth geisio diweddariadau.

### **Pethau allweddol a ddysgwyd**

Dylai polisiâu a phrosesau adlewyrchu mecanweithiau sy'n arwain at gyfyngu ar nifer y symudiadau cleifion, gan sicrhau bod cleifion yn y lle iawn ar yr adeg iawn.

Pan gaiff cleifion eu symud, dylai teuluoedd gael cyfathrebu rhagweithiol ac amserol ar y lleoliad a'r sail resymegol dros y symudiad.

### **Arfer da**

Aeth sefydliadau ati'n gyflym i weithredu profion yn y man lle y rhoddir gofal er mwyn helpu i ddarparu gofal clinigol a helpu i gael diagnosis a phenderfyniadau clinigol mwy amserol. Cefnogodd hyn reolaeth epidemig ddyddiol well drwy leihau symudiadau cleifion a chyflawni canfod cynnar ar gyfer cynlluniau triniaeth i'w rhoi ar waith a oedd yn helpu i drosglwyddo/ryddhau cleifion yn ddiogel ac yn amserol i leoliadau gofal amgen pan fo angen.

Yn ystod y pandemig, gweithredodd bwrdd iechyd fenter diogelwch cleifion sydd wedi'i datblygu a'i rhannu, ers hynny, fel enghraifft o arfer da mewn fforymau ledled Cymru. Mae'r fframwaith a'r asesiad risg yn cefnogi timau clinigol gyda chanllawiau i gynorthwyo prosesau o wneud penderfyniadau i gleifion â salwch anadlol a amheuir, yn nodedig COVID-19. Defnyddir y fframwaith fel offeryn ymarferol ar gyfer derbyniadau newydd a throsglwyddo cleifion – sy'n canolbwyntio ar gadw cleifion mor ddiogel â phosibl.



### 5.3.3 Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion

Mae'r broses cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion mewn gofal iechyd yn ei gwneud yn ofynnol cael dull amlddisgyblaethol ar draws byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, awdurdodau lleol a darparwyr gofal eraill. Mae gwaith cynllunio effeithiol ar gyfer rhyddhau cleifion yn hanfodol i barhad gofal, yn ogystal â buddion o ran diogelwch cleifion.

Mewn lleoliadau ysbytai, er gwaethaf darpariaeth atal a rheoli heintiau, mae risg gyson o haint oherwydd nifer o ffactorau. Gall rhyddhau cleifion yn amserol leihau'r risg o haint (heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd), yn ogystal â gwella'r broses adfer a gwella symudedd cleifion. Mae dyddiad ac amser rhyddhau arfaethedig a dargedir yn lleihau hyd arhosiad claf, aildderbyniadau, pwysau ar gapasiti gwelyau ysbyty, a gwasanaethau.

Yn ystod y pandemig, barnwyd bod nifer sylweddol o gleifion yn 'feddygol ffit' i'w rhyddhau, ond gohiriwyd y broses rhyddhau oherwydd heriau fel cau cartrefi gofal oherwydd brigadau o achosion neu anallu i dderbyn cleifion sydd wedi cael canlyniad positif i brawf COVID-19, perthnasau agored i niwed gartref, neu oedi wrth ddyrannu pecynnau gofal. Roedd llawer o wasanaethau yr ystyriwyd nad oeddent yn hanfodol hefyd yn gyfyngedig, yn cynnig llai o wasanaeth neu wedi dod i ben, a gafodd effaith sylweddol ar lif cleifion.

Er nad oedd oedi cyn rhyddhau cleifion yn fater 'newydd' yn ystod y pandemig, roedd wedi'i waethygu gan y pwysau digynsail ar y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

#### Pethau allweddol a ddysgwyd

Roedd mwy o risg o ddirywio neu haint i gleifion a wynebodd oedi cyn eu rhyddhau. Dylid cydnabod y gellir dadlau bod oedi cyn rhyddhau cleifion yn symptom o bwysau digynsail ar y system ehangach (gofal eilaidd, sylfaenol ac yn y gymuned) gan gynnwys ffyrdd gwahanol o weithio, lefelau uchel o gleifion difrifol wael, pwysau staffio a symudiad cleifion cyfyngedig oherwydd rhagofalon atal a rheoli heintiau a chanllawiau cenedlaethol ynghylch trefniadau rhyddhau cleifion a chymorth yn y gymuned.

#### Arfer da

Mae ymchwiliadau wedi dangos dull amlddisgyblaethol da o gynllunio rhyddhau cleifion rhwng byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, awdurdodau lleol a darparwyr gofal eraill, gan gydweithio i ryddhau cleifion o leoliadau ysbyty cyn gynted â phosibl.

Mae'r Gydweithredfa Gofal Diogel wedi bod yn gweithio gyda bwrdd iechyd i sicrhau cynifer o 'ddiwrnodau gwyrdd' â phosibl i gleifion mewnol - y rhai sy'n cyfrannu'n gadarnhaol i daith gwella cleifion tuag at ryddhau. Mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar gydnabod gwerth amser i staff a chleifion, gan wneud y gorau o sut y mae'r sgiliau sydd ar gael yn cael eu defnyddio er budd cleifion 24 awr y dydd. Mae'r prosiect wedi'i groesawu gan staff, sy'n adrodd adborth cadarnhaol gan gleifion ac yn rhoi enghreifftiau lle y mae cleifion yn cael eu rhyddhau'n gyflymach ac â gweithrediad gwell o ganlyniad i'r gwaith.

### 5.3.4 Amgylcheddau ysbyty

Mae ystadau sy'n heneiddio ar draws byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru yn cyflwyno nifer o heriau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a phrofiad cleifion. Ers i lawer o'r ysbytai a lleoliadau gofal iechyd eraill ledled Cymru gael eu dylunio a'u hadeiladu, mae arfer gorau atal a rheoli heintiau a phrofiad cleifion wedi datblygu'n sylweddol.

Mae gan lawer o leoliadau gofal iechyd fynediad cyfyngedig at ystafelloedd sengl sy'n golygu bod llai o gyfle i ynysu cleifion. O ganlyniad, cafodd llawer o gleifion eu carfannu i leihau lledaeniad haint, a oedd yn aml yn golygu bod cleifion yn cael symudiadau ward lluosog.

Roedd gwelyau a gwyntyllu hefyd yn her mewn rhai ardaloedd a oedd yn cyfyngu ar y gallu i reoli'r risg o haint. Mae lle i wella wrth ddylunio lleoliadau gofal iechyd yn y dyfodol – mae'r pandemig a'r hyn a ddysgwyd wedi hynny wedi tynnu sylw at yr effaith y gall dyluniad ystad modern, fel argaeledd ystafelloedd sengl ei chael ar atgyfnerthu trefniadau atal a rheoli heintiau.


O safbwynt profiad cleifion, mae amgylcheddau ysbyty gwell yn darparu lle mwy cyfforddus a mwy diogel i gael triniaeth. Yn ystod y pandemig pan ailgyflwynwyd ymweliadau ar sail risg, nid oedd rhai cleifion yn gallu cael ymwelwyr oherwydd lle cyfyngedig a'r risg uwch o haint gysylltiedig. Roedd peidio â chael ymwelwyr yn cael llawer o effeithiau andwyol ar gleifion, fel y nodwyd yn yr adran flaenorol 'cyfyngiadau ymweld'.

### Pethau allweddol a ddysgwyd

Mae ystad gofal iechyd sy'n heneiddio yng Nghymru yn cyflwyno nifer o heriau, yn enwedig ynghylch atal a rheoli heintiau mewn sefyllfa pandemig. Pan fo'n bosibl, dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau barhau i wneud gwelliannau sy'n gwella mesurau atal a rheoli heintiau a defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig i lywio dyluniad ysbytai yn y dyfodol.

### Arfer da

Roedd cydweithio ardderchog rhwng timau ward a chydweithwyr atal a rheoli heintiau yn galluogi carfannu cleifion yn effeithiol a'u symud yn seiliedig ar ganllawiau ac asesiadau risg cenedlaethol a oedd yn dod i'r amlwg.



## 6. Sylwadau i gloi

Cyflwynodd pandemig COVID-19 un o'r cyfnodau mwyaf heriol yn hanes y GIG, gydag effeithiau pellgyrhaeddol. Mae cynnal adolygiadau o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion nosocomiaidd wedi bod yn hanfodol i roi cynifer o atebion â phosibl i gleifion, teuluoedd a gofalwyr, yn ogystal â nodi cyfleoedd dysgu a fydd yn gwella darpariaeth gofal a phrofiadau o ofal iechyd yn y dyfodol.

Mae'r hyn a ddysgwyd yn genedlaethol ac yn lleol o ymchwiliadau wedi dangos enghreifftiau o ofal is-safonol a meysydd i'w gwella'n sylweddol, yn ogystal â meysydd arfer gorau sy'n dangos enghreifftiau o allu i addasu ac arloesi.

Mae byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru wedi bod yn rhannu'r hyn a ddysgwyd mewn amrywiaeth o fforymau drwy gydol y rhaglen a bydd yr hyn sy'n cael ei ddysgu'n parhau i gael ei driongli yn y manau priodol i gefnogi gwelliannau. Bydd yr hyn sy'n cael ei ddysgu o ymchwiliadau'n cael effaith sylweddol ar brofiadau, ansawdd gwasanaethau, a diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaethau sy'n derbyn gofal.

Mae Rhaglen Genedlaethol COVID-19 Nosocomiaidd yn estyn ei diolch diffuant a'i diolchgarwch i gleifion, teuluoedd, gofalwyr a chydweithwyr GIG Cymru sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen a'r broses ymchwilio.

## 7. Gwybodaeth ychwanegol

### Cael mynediad at gymorth

Anogir y bobl a gymerodd ran yn y rhaglen i estyn allan i'w bwrdd iechyd dynodedig neu eu hymddiriedolaeth ddynodedig os ydynt yn teimlo yr hoffent gael sgwrs am rai o'r canfyddiadau.

Gellir cael mynediad at gymorth iechyd meddwl a llesiant drwy'r dydd, bob dydd drwy'r [Llinell Gymorth Iechyd Meddwl](#); ffoniwch 0800132737 neu tecstiwch "help" i 81066.

Ceir gwybodaeth am alar a phrofedigaeth, a'r cymorth sydd ar gael, ar [dudalen we profedigaeth GIG 111 Cymru](#).

Mae mynediad at gymorth iechyd meddwl a llesiant i staff GIG Cymru ar gael drwy wasanaethau llesiant ac iechyd galwedigaethol ym mhob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth yn yr achos cyntaf. Gellir cael mynediad at gymorth iechyd meddwl a llesiant ychwanegol drwy'r [Llinell Gymorth Iechyd Meddwl](#).



## Rhestr termau

Carfannu	Mae'n diffinio grwpiau o bobl â nodweddion cyffredin o ddata iechyd yn cael eu rhoi gyda'i gilydd lle y mae'r galw'n fwy na'r capasiti. Yng nghydestun yr adroddiad hwn, mae carfannu'n ymwneud â diagnosis lle yr amheuir COVID-19 a materion eraill sy'n ymwneud ag iechyd.
Cyfarpar diogelu personol	Gorchuddion wyneb, dillad, helmedi, sbectol, neu ddillad diogelu eraill, wedi'u dylunio i ddiogelu'r sawl sy'n eu gwisgo rhag niwed neu haint.
Darparwyr annibynnol	Gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau nad ydynt yn wasanaethau Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth y GIG. Mae enghreifftiau'n cynnwys darparwyr gofal annibynnol fel cartrefi gofal, gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, elusennau a sefydliadau'r Trydydd Sector.
Defnyddwyr gwasanaethau	Unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd a ariennir gan GIG Cymru.
Diffiniadau goruchwyliaeth	Mae goruchwyllo heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd yn cyfeirio at fonitro ac adrodd y digwyddiadau hyn. Defnyddir diffiniadau goruchwyllo i gategoreiddio'r digwyddiadau hyn fel rhan o ymchwiliadau.
Digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion	Digwyddiad anfwriadol neu annisgwyl a allai fod wedi neu a wnaeth arwain at niwed i un neu ragor o gleifion a oedd yn cael gofal a ariennir gan y GIG.
Eitemau traul	Nwyddau a ddefnyddir gan unigolion a busnesau y mae'n rhaid eu disodli'n rheolaidd fel nodwyddau/swabiau ac ati. Yng nghydestun yr adroddiad hwn, mae 'eitemau traul' yn cyfeirio at eitemau a ddefnyddiwyd ar gyfer profion COVID-19.
Heintiau nosocomiaidd	Mae heintiau nosocomiaidd, y cyfeirir atynt hefyd fel 'heintiau a ddelir/ddaliwyd wrth gael gofal', yn heintiau a gaiff neu a gafodd eu dal wrth gael gofal iechyd, a lle nad oedd yr haint hwnnw'n bresennol ar adeg derbyn person i'r ysbyty neu'r lleoliad gofal iechyd. Gall hyn ddigwydd mewn meysydd darparu gofal iechyd gwahanol, fel mewn ysbytai, cyfleusterau gofal hirdymor, a lleoliadau symudol. Gall yr haint hefyd ymddangos ar ôl rhyddhau claf o leoliad gofal iechyd, ond caiff ei briodoli i'r adeg pan oedd person mewn cyswllt â'r lleoliad gofal iechyd.
Na cheisier dadebru cardio-anadlol	Mae hyn yn cyfeirio at broses benodol trafod a dogfennu PEIDIO â chychwyn dadebru cardio-anadlol os bydd ataliad y galon a digwyddiad marw naturiol a disgwyliedig yn y dyfodol. Nid yw penderfyniad na cheisier dadebru cardio-anadlol yn cael sgil-ffeithiau ar unrhyw elfen arall o driniaeth a gofal.
Pryder	Mae pryder yn ddigwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, neu'n unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd a godir gan aelod o'r cyhoedd a gall fod ar lafar neu'n ysgrifenedig.